**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y BIL ARDRETHU ANNOMESTIG**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru (y Senedd) os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Mawrth 2023. Mae'r Bil i'w weld yma: https://bills.parliament.uk/bills/3442

## Amcanion polisi

3. Mae amcanion polisi'r Bil hwn yn parhau i fod yr un fath â'r rhai a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd ar 11 Ebrill 2023.

## Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

5. Darparwyd crynodeb o'r Bil yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, sy'n gywir o hyd.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

6. Cyflwynwyd gwelliannau gan y llywodraeth ar 17 Mai 2023 i gywiro gwallau drafftio mewn darpariaethau presennol yn yr Atodlen i'r Bil, ond nid oedd y rhain yn effeithio ar gynnwys y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodais ar 11 Ebrill, nac yn gyfystyr â gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf at ddibenion RhS 29.2(iii).

7. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, argymhellais fod cydsyniad yn cael ei roi ar gyfer y canlynol:

   - Cymal 1 (Ardrethu lleol: atebolrwydd a rhyddhadau gorfodol ar gyfer hereditamentau a feddiennir);
   - Cymal 3 (Ardrethu canolog: atebolrwydd a rhyddhadau gorfodol);
   - Cymal 10 (Datgelu gwybodaeth brisio i drethdalwyr);
   - Cymal 11 (Datgelu gwybodaeth brisio i swyddogion ardrethu Gogledd Iwerddon);
   - Cymal 12 (Rhannu gwybodaeth ardrethi annomestig rhwng awdurdodau bilio a CThEF);
   - Cymal 15 (Lluosyddion);
   - Cymal 17 (Darpariaeth ganlyniadol);

- Cymal 19 (Cychwyn a chymhwyso); ac
- Yr Atodlen – ac eithrio paragraffau 49 a 50 yn Rhan 4 (Darpariaeth ganlyniadol)

8. Fodd bynnag, nodwyd hefyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf nad oedd yn briodol argymell cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn hyd nes yr oedd trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â’r darpariaethau hyn wedi’u cwblhau:

- Cymal 13 (Gofynion i dalwyr ardrethi etc ddarparu gwybodaeth); a
- Pharagraffau 49 a 50 yn Rhan 4 o’r Atodlen (Canlyniadol i Gymal 13).

9. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU wedi parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd ynglŷn â Chymal 13 a'i ddarpariaethau canlyniadol yn y Bil, sydd o dan sylw yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn.

10. Pan osodais y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, gwnes i gydnabod bod y trafodaethau hynny'n parhau mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig yng Nghymal 13. Datblygwyd darpariaethau'n ymwneud â'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2023, ychydig cyn cyflwyno'r Bil ac yn dilyn trafodaethau blaenorol ynglŷn â’r darpariaethau eraill sy'n gymwys o ran Cymru. O ganlyniad i ohebiaeth â Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Bil, estynnwyd y darpariaethau hyn i Gymru, ond nid oedd digon o amser cyn i’r Bil gael ei gyflwyno i ystyried yn llawn yr hyn a fyddai’n briodol o ran dirprwyo pwerau yng Nghymal 13.

11. Ar ôl cyflwyno’r Bil a gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf wedi hynny, parhaodd trafodaethau rhwng swyddogion i egluro'r rhesymeg dros y dull gweithredu o ran pwerau dirprwyedig a safbwynt Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw opsiynau amgen. Cydnabuwyd y byddai dulliau amgen posibl yn arwain at risg o wahaniaethau yn y ffordd o weinyddu'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes*, y bwriedir i Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) ei gweithredu mewn modd cyson ledled Cymru a Lloegr. Ystyriais gyngor pellach gan swyddogion, ar sail y trafodaethau hynny, cyn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i gadarnhau fy safbwynt.

12. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar weithredu'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* ledled Cymru a Lloegr yn llwyddiannus, ac i rannu’n rheolaidd wybodaeth ac ystyriaethau perthnasol yn gynnar, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â'r defnydd posibl o bwerau dirprwyedig.

**Darpariaethau ychwanegol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Mae cyllid llywodraeth leol, gan gynnwys ardrethi annomestig, yn fater datganoledig yng Nghymru. Mae trethi lleol i ariannu gwariant awdurdodau lleol yn eithriad i’r materion a gedwir yn ôl o ran polisi cyllidol, economaidd ac ariannol yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

14. Rwyf o’r farn bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â’r darpariaethau a ganlyn sydd wedi’u cynnwys yn y Bil gan eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yn enwedig ym maes ardrethi annomestig.

*Cymal 13 (Gofynion i dalwyr ardrethi etc ddarparu gwybodaeth)*

15. Mae Cymal 13 yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 drwy fewnosod paragraffau newydd 4B i 4M, 5ZA i 5ZF, a 5BA i 5BF yn Atodlen 9. Bydd Cymal 13 yn nodi pryd a sut y bydd yn ofynnol i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth i CThEF neu swyddogion prisio. Mae'r Cymal hefyd yn nodi cyfundrefnau cosbi i ddelio â diffyg cydymffurfio ac yn sefydlu proses apelio gysylltiedig.

16. Mae rhai o ddarpariaethau Cymal 13 y Bil yn gymwys o ran Cymru a Lloegr, sef Cymal 13(2), (4) a (6). Mae Cymal 13(2) yn mewnosod paragraffau newydd 4B i 4H yn Atodlen 9, gan ymdrin â'r ddyletswydd (newydd) ar dalwyr ardrethi annomestig i ddarparu cyfeirnod treth i CThEF. Caiff Comisiynwyr CThEF wneud rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o gyfeirnod treth a/neu i ddarparu nad yw'r ddyletswydd yn gymwys i berson(au) penodol. Darpariaethau gweinyddol yw’r rhain i sicrhau y gall CThEF gynnal y rhaglen yn effeithiol. Ni ellir ond gwneud rheoliadau o’r fath mewn perthynas â Chymru ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

17. Mae Cymal 13(4) yn mewnosod paragraffau newydd 5ZA a 5ZB yn Atodlen 9, gan greu system o gosbau a osodir gan CThEF pan fo talwyr ardrethi annomestig wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd. Mae Cymal 13(6) yn mewnosod paragraffau newydd 5BA i 5BC yn Atodlen 9, gan ymdrin â’r broses adolygu ac apelio ar gyfer y cosbau a gyflwynir yng Nghymal 13(4).

18. Mae gweddill darpariaethau Cymal 13 yn gymwys i Loegr yn unig, gan nodi gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio.

19. Y bwriad yw y bydd gwybodaeth a rennir o dan y darpariaethau yn galluogi’r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* i gael ei gweinyddu gan CThEF ledled Cymru a Lloegr ar y cyd.

20. Bydd Cymal 13(2), (4) a (6) – i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru – hefyd yn dod i rym yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

*Yr Atodlen (Darpariaeth ganlyniadol)*

21. Mae diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r newidiadau deddfwriaethol a wneir gan Gymal 13 wedi’u cynnwys yn yr Atodlen. I’r graddau y mae’r darpariaethau yn yr Atodlen i’r Bil yn ganlyniadol i’r cymalau hynny sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, byddent hwythau o fewn ei chymhwysedd, ac o’r herwydd mae angen cydsyniad y Senedd.

22. Mae paragraffau 49(c) a 50 o’r Atodlen yn darparu y caiff Comisiynwyr CThEF, mewn perthynas â’r ddyletswydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu cyfeirnod treth a

nodir yng Nghymal 13, wneud rheoliadau mewn perthynas â hysbysiadau neu newid swm cosb, yn y drefn honno. Darpariaethau gweinyddol yw’r rhain i sicrhau y gall CThEF gynnal y *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* yn effeithiol. Ni ellir ond gwneud rheoliadau o’r fath mewn perthynas â Chymru ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.

**Safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

23. Mae’r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau o’r farn bod Cymal 13 a Rhan 4 o’r Atodlen yn cynnwys darpariaethau sy’n sbarduno’r broses cydsyniad deddfwriaethol.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu Annomestig**

24. Rwy'n fodlon nad yw'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin yn sbarduno’r broses cydsyniad deddfwriaethol. Roedd y gwelliannau hyn yn cywiro gwallau drafftio yn y Bil a gyflwynwyd ac ni wnaethant ddarpariaeth berthnasol am y tro cyntaf.

25. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hwn yn egluro safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chymal 13 a pharagraffau 49 a 50 yn Rhan 4 o'r Atodlen.

26. Mae Cymal 13 a pharagraffau 49 a 50 yn Rhan 4 o’r Atodlen (pan y’u darllenir ar y cyd â Chymal 12) yn sefydlu'r pyrth gwybodaeth angenrheidiol i alluogi gweithredu'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes*. Bydd y rhaglen yn cael ei gweithredu gan CThEF ledled Cymru a Lloegr, fel y gallwn elwa ar set ddata gysylltiedig bwerus, gan gynnwys data treth CThEF, na fyddem fel arall yn gallu cael mynediad atynt. Gan fod y rhaglen yn cael ei harwain gan CThEF, ystyrir ei bod yn angenrheidiol rhoi'r pwerau dirprwyedig perthnasol i Gomisiynwyr CThEF.

27. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer mecanwaith ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, sy'n cydnabod y rhyngweithio unigryw rhwng polisi ardrethu annomestig datganoledig a swyddogaethau awdurdod a gedwir yn ôl, gan gynnwys mewn perthynas â materion nad ydynt wedi’u datganoli, sy'n sylfaen i'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes*.

28. Mae'r mater hwn yn gymhleth, gyda maes polisi datganoledig a swyddogaethau awdurdod a gedwir yn ôl sy'n gysylltiedig yn fwriadol, er mwyn galluogi rhywbeth newydd ac arloesol. Dim ond CThEF sy'n gallu darparu'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* ar gyfer Cymru, am fod y rhaglen yn dibynnu ar rannu a chysylltu gwybodaeth a gedwir gan CThEF am ardrethi nad ydynt wedi'u datganoli, yn ogystal â gwybodaeth am ardrethi annomestig. O ganlyniad, byddai unrhyw is-ddeddfwriaeth a gaiff ei gwneud o dan y pwerau sydd wedi'u dirprwyo i Gomisiynwyr CThEF yn cael effaith uniongyrchol ar y swyddogaethau a roddir gan y Bil i CThEF, ac yn newid y gofynion a roddir ar dalwyr ardrethi annomestig. Mae hyn yn golygu bod pob un o'r opsiynau i sicrhau y gellir darparu'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* yng Nghymru yn galw am gyfaddawd.

29. At ei gilydd, o ystyried y gwahanol ffactorau hyn a chyd-destun y darpariaethau penodol, rwyf wedi casglu bod y pwerau dirprwyedig a roddir i CThEF a'r ddyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru yn briodol er mwyn hwyluso'r gwaith o weinyddu'r system Digideiddio Ardrethi Busnes, y mae angen iddi weithredu mewn modd cyson ledled Cymru a Lloegr. Mae'r mecanwaith ymgysylltu hwn yn cydnabod y rhyngweithio unigryw rhwng polisi ardrethu annomestig datganoledig a swyddogaethau awdurdod a gedwir yn ôl. Mae'r pwerau hyn yn gyfyngedig ac nid oes angen eu harfer er mwyn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol a amlinellir yn y Bil ar waith. Dim ond pan ystyrir bod angen gwneud newid gweinyddol perthnasol er mwyn sicrhau bod CThEF yn rhedeg y *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* yn effeithiol y byddant yn cael eu defnyddio.

30. Ni ragwelir y bydd angen deddfu'n wahanol o dan y pwerau dirprwyedig mewn perthynas â Chymru, nac awydd i wneud hynny. Yn ogystal, byddai'r posibilrwydd o ddefnyddio dull amgen yn arwain at risg na fyddai'r system yn gweithredu mewn modd effeithiol na chyson. Drwy weithredu fel hyn, gellir sicrhau y bydd modd cyflawni nodau'r *Rhaglen Digideiddio Ardrethi Busnes* a gwireddu'r manteision a fwriedir yng Nghymru.

31. Pe bai’r Senedd yn bwriadu deddfu darpariaethau tebyg mewn Bil gan y Senedd, ni fyddai’n gallu gwneud hynny heb gydsyniad Trysorlys EF, a hynny yn rhinwedd y cyfyngiad ym mharagraff 8 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sef bod rhai o’r darpariaethau’n rhoi/gosod swyddogaeth ar awdurdod a gedwir yn ôl.

**Goblygiadau ariannol**

32. Nid oes unrhyw gostau’n gysylltiedig â Chymal 13 na pharagraffau 49 a 50 yn Rhan 4 o’r Atodlen i’r Bil.

**Casgliad**

33. Ar ôl ystyried ymhellach, rwy’n argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i Gymal 13 a pharagraffau 49 a 50 yn Rhan 4 o'r Atodlen i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru.

34. Felly, rwy'n argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil hwn yn ei gyfanrwydd, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**01 Awst 2023**